

Eitem: 12

Teitl: Penodi aelodau annibynnol i bwyllgorau'r Bwrdd

Gweithredu / Action required	Penderfyniad
Amseru / Timing	Brys
Argymhelliad / Recommendation	<p>Gofynnir i'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi'r cyngor a ddarperir gan Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Bwrdd • cytuno ar gychwyn y broses i benodi dau aelod annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.
Risg / Risk	Mae risg na fydd gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yr arbenigedd a'r wybodaeth arbenigol i roi sicrwydd digonol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar faterion penodol sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor..
Cyllid / Finance	Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cynnwys darpariaeth i Llais dalu treuliau a lwfansau i aelodau annibynnol.
Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllun strategol/ Strategic plan objective Amcan cynllun 100 diwrnod / 100 day plan objective	Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ffurfio rhan o strwythur llywodraethu Llais ac mae'n chwarae rhan allweddol yn ein fframwaith sicrwydd.
Cydraddoldeb / Equality	Os yw'r Bwrdd yn cytuno i benodi aelodau annibynnol, byddwn yn cynnal Aseiad Effaith Integredig wrth ddatblygu manyleb rôl.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:

	<p>Mewnol ein pobl <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Allanol ein Cwsmeriaid / Partneriaid / Rhanddeiliaid <input type="checkbox"/></p> <p>Allanol enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/></p>
<p>Cymeradwyaeth / Approval/Clearance</p>	<p>Mae'r papur hwn wedi'i glirio gan y Brif Weithredwraig.</p>
<p>Trafodaethau neu penderfyniadau blaenorol / Previous discussions or decisions</p>	<p>Cytunodd y Bwrdd ar y Rheolau Sefydlog sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer penodi aelodau annibynnol.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd yn flaenorol y byddai'n ystyried penodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn dilyn 12 mis o weithrediadau.</p> <p>Ers hynny, mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrhau wedi nodi bwlch sgiliau a'r angen i aelodau annibynnol roi sicrwydd ychwanegol.</p>
<p>Awdur Cyflwyno / Author/presenting</p>	<p>Ceri Sullivan</p>
<p>Dyddiad / Date</p>	<p>14.07.2023</p>
<p>Cefndir / Background</p>	
<p><u>Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020:</u></p> <p>"Pwyllgorau</p> <p>11(1) Gall Corff Llais y Dinesydd sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau.</p> <p>(2) Gall pwyllgor neu is-bwyllgor gynnwys, neu gael ei gynnwys yn gyfan gwbl, bersonau nad ydynt yn aelodau o'r Corff.</p> <p>(3) Gall y Corff dalu treuliau a lwfansau i unrhyw berson sydd—</p> <p>(a) yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd o dan y paragraff hwn, a</p> <p>(b) nad yw'n aelod o'r Corff nac yn aelod o'i staff."</p> <p><u>Rheolau Sefydlog Llais :</u></p>	

"

1. Gall y Bwrdd benodi hyd at 2 aelod annibynnol o'r tu allan i'r sefydliad i bwyllgor, ar yr amod bod ganddynt yr arbenigedd neu'r profiad proffesiynol perthnasol. Gellir penodi'r unigolion hyn yn aelodau'r pwyllgor. "

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd:

"

1. Gall y Bwrdd benodi hyd at ddau aelod annibynnol nad ydynt yn aelodau bwrdd sydd ag arbenigedd proffesiynol perthnasol i'r pwyllgor.
2. Ni chaiff unrhyw aelod o'r pwyllgor hefyd fod yn aelod o staff, neu fod ag unrhyw awdurdod gweithredol ar gyfer rheoli Llais.
3. Bydd cworwm o 3 aelod yn caniatáu i'r pwyllgor gynnal ei fusnes. Gall aelod annibynnol gael ei gynnwys yn y cworwm."

Asesiad sgiliau anweithredol:

Cynhaliwyd asesiad sgiliau ar gyfer holl aelodau anweithredol y Bwrdd.

Amlygodd canlyniad yr asesiad hwn fod bylchau sgiliau mewn meysydd sy'n berthnasol i waith y pwyllgor.

Argymhelliad y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd

Ar 5 Gorffennaf 2023 cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrhau a thrafod yr angen am sgiliau ychwanegol i roi sicrwydd digonol i'r Bwrdd a chefnogaeth i aelodau'r pwyllgor.

Trafododd y Pwyllgor y sgiliau sydd eu hangen i sicrhau effeithiolrwydd y pwyllgor. Casgliad y pwyllgor oedd bod angen arbenigedd ariannol a chyfreithiol arbenigol ychwanegol.

Cefnogir casgliad aelodau'r pwyllgor gan gylch gwaith y pwyllgor fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl a'r canllawiau a gynhwysir yn adran 4, paragraff 4.1 o Lawlyfr y Pwyllgor Archwilio:

Oherwydd pwysigrwydd rheolaeth ariannol ac adrodd i bob sefydliad, dylai o leiaf un aelod o'r Pwyllgor gael profiad ariannol diweddar a pherthnasol digonol i'w galluogi i ddadansoddi'r datganiadau ariannol yn gymwys a deall disgyblaethau rheoli ariannol da.

Manylion / Detail

Mae angen gweithredu:

Gofynnir i'r Bwrdd ystyried argymhelliad y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i benodi dau aelod annibynnol sydd â phrofiad ac arbenigedd ariannol a chyfreithiol i gefnogi'r pwyllgor a sicrhau ei fod yn effeithiol.

Y camau nesaf:

Os yw'r Bwrdd yn cytuno ar yr argymhelliad, bydd ein pobl yn dechrau gweithio i benderfynu ar y dull gorau o wneud y penodiadau hyn. Bydd ein dull gweithredu yn cael ei lywio gan y dulliau a ddefnyddir gan gyffwrdd cyhoeddus eraill o faint a chyfansoddiad tebyg.